# Addysg / Education
## Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service
Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens


Eitem 7 – Atodiad 1


Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**

☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/AAS**

(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:

owenowens@gwynedd.llyw.cymru


12 Ionawr 2017

**I sylw: Corff Llywodraethol a Phenaethiaid Ysgolion Cynradd ac Arbennig**

**System Talu Ar-Lein**

Annwyl gyfaill

Yn dilyn galwadau o sawl cyfeiriad, gan gynnwys ysgolion a rhieni, mae'n fwriad gweithredu cynllun fyddai'n cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer talu am ginio ysgol yn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir.

Mae nifer o fanteision o gyflwyno system talu ar-lein, gan gynnwys:

- dim angen i blant fynd ag arian parod i'r ysgol
- lleihau cyfleoedd i arian fynd ar goll
- lleihau cyfleoedd bwlio ymysg plant
- rhieni yn gallu gwneud taliad unrhyw adeg (24/7)
- cofnod bod taliadau wedi'u gwneud a'u derbyn gan yr ysgol a'r rhieni
- negeseuon atgoffa i'r rhieni sydd â dyled
- lleihau gofynion trafod arian parod yn yr ysgol
- lleihau y gwaith gweinyddol sy'n ynghlwm â chasglu arian cinio
- lleihau gwaith balansio llyfrau cyfrifon
- lleihau'r arian parod sydd angen ei gadw'n ddiogel ar safle ysgol
- lleihau gofynion bancio arian

Byddai cyflwyno system talu ar-lein ar gyfer cinio ysgol hefyd yn creu cyfleon eraill mewn ysgolion. Er enghraifft, gellir defnyddio'r un system i ganiatáu taliadau ar-lein ar gyfer clybiau, tripiau, gwersi offerynnol, llefrith, nofio, ayyb.

Byddai cyflwyno system hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion ail-ystyried eu strwythurau casglu arian yn gyffredinol.

Bydd yr Awdurdod yn ysgwyddo costau sefydlu'r meddalwedd, ond bydd costau blynyddol rhedeg y system yn disgyn ar yr ysgolion. Atodaf daenlen yn nodi'r costau blynyddol i ysgolion unigol yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ym Medi 2016.

Bwriedir cyflwyno'r system talu ar-lein ym Medi 2017.

Byddaf yn cyflwyno adroddiad ynglŷn â gweithredu cynllun ar gyfer system talu ar-lein i ysgolion cynradd ac arbennig Gwynedd i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 7 Chwefror, 2017. Petai gennych unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun gofynnaf i chi roi gwybod i mi erbyn dydd Gwener, 27 Ionawr, 2017.

Diolch

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**